

Cystadleuaeth y Gadair

Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 o linellau ar y testun: 'Diolch'

Beirniadaeth Peredur Lynch ac Eurig Salisbury

Nodwedd amlycaf y gystadleuaeth hon eleni oedd amrywiaeth rhyfeddol y lleisiau barddol y bu'n rhaid i ni eu tafoli, ac roedd hynny'n amlwg o ran mesurau, arddull a bydolwg. Gosod terfyn yn unig a wna'r '100 o linellau' a nodir yn nheitl y gystadleuaeth, ac o ganlyniad fe gafwyd hefyd gyfansoddiadau a oedd yn amrywio'n fawr o ran hyd. Byr a thelynegol eu cywair oedd rhai ohonynt, ond, ar y cyfan, gellir dweud bod y goreuon wedi ymdrechu i bensaernïo cerddi meithach a roddai fwy o ofod iddynt gyflwyno'u hymatebion i'r teitl gosodedig.

Cystadleuydd diddorol yw *MEIRION GOCH*. Fe gawsom gerdd ddiffuant ganddo yn dathlu ei berthynas â'i dad, ond cyflwynodd i ni hefyd ddarnau atodol sy'n olrhain y cynllunio creadigol a roddodd fod iddi. Mae diffuantrwydd hefyd yn nodweddu cyfansoddiadau *SION BLEWYN COCH* a *CELT* sy'n cynnwys ymatebion i'r pandemig a fu'n gysgod dros ein bywydau ers dwy flynedd bellach. Mae *CELT* yn fydryddwr rhwydd ac un o ragoriaethau *SION BLEWYN COCH* yw ei fod yn llwyddo i gyfosod mawl (i weithwyr y GIG) a dychan (i'r 'llywodraeth') o fewn terfynau'r un gerdd. Mae *ANNWYL HELEDD*, mewn cerdd gryno eithriadol, yn ymgodymu â galar ac yn diolch am allu 'sawru'r achlysuron arbennig' o'r gorffennol sy'n lleddfu rhywfaint ar y golled.

Gyda chynigion *DIHANGWR*, *CELYN* ac *Y GAELAF* fe ddown at gystadleuwyr a fu'n llawer mwy uchelgeisiol o ran cynllun eu cerddi. Y mae'r ddau gyntaf yn ymwneud â'r un thema, sef mynydda. Fodd bynnag, fe wnânt hynny o safbwyntiau cwbl wahanol. Cerdd oddrychol sy'n olrhain taith i gopa Ben Nevis a gafwyd gan *DIHANGWR*, ac y mae i'w ffugenw arwyddocâd deublyg. Mae dringo'r mynydd yn gyfle iddo ddianc rhag prysurdeb byw a bod ac yn ddihangfa hefyd rhag tor calon carwriaeth a ddaeth i ben. Dychanwr diarbed, ar y llaw arall, yw *CELYN*, a gwrthrych ei feirniadaeth ddeifiol yw'r cerddwyr o bell sy'n heidio i ardal Llanberis. Fe ddônt i Eryri, meddai, nid yn unig 'i rodio' ac 'i fentro', ond hefyd 'i goncro', ac un agwedd ar y trefedigaethu hwn yw bod enwau Cymraeg fel Cwm Cneifion yn cael eu disodli gan greadigaethau rhyfeddol megis Nameless Cwm. Mae gan *CELYN* adnoddau ieithyddol ardderchog, er y byddai o fudd iddo anelu am fwy o gynildeb drwy ffrwyno ei lifeiriant geiriol. Arddull gynilach o'r fath a geir gan *Y GAELAF*. Canu yn sgil profedigaeth a wna a cholli rhywun – nas enwir – a fu'n ganolog iddo yn ystod ei blentyndod. Gwneir defnydd tra effeithiol o atgofion o'r gorffennol a cheir yma gyffyrddiadau cynganeddol da gan gynnwys y llinell 'Ynof diffoddwyd kannwyll' sy'n cyfleu'n syml, ond yn ardderchog, natur y galar a'r golled.

Rydym yn gosod *ELAN* a *CRWSTYN* fymryn ar y blaen i'r tri a drafodwyd yn y paragraff blaenorol. Fel *SION BLEWYN COCH* a *CELT* uchod, dyfalwn mai ymateb yn rhannol i'r pandemig a gawn gan *ELAN* hefyd, ond y mae'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n fwy trosiadol a goddrychol. Fel yr esbonia'r bardd, cerdd o ddiolch yw hon 'i Gadeirlan Bangor, am ei sicrwydd mewn cyfnod ansicr'. Ceir yma gyffyrddiadau gwirioneddol ardderchog fel y dengys y llinellau agoriadol:

Mae nhw'n dweud fod y byd
wedi sefyll yn stond,
y dyddiau fel rhewlif
yn ymlusgo heibio
a chân y gadeirlan
yn garreg ateb iddi'i hun
wrth nodi pen yr awr . . .

Onid yw'r llinellau hyn yn cyfleu i'r dim orthrwm syrffedus y cyfnod clo? Yr un mor effeithiol yw'r darlun a gawn yn ddiweddarach yn y gerdd o'r byd wedi'r clo 'yn deffro o'i drwmgwsg' a'r Gadeirlan yn 'agor / ei hadenydd gwydr lliw'. Mae *CRWSTYN* hefyd yn fardd sy'n traethu'n effeithiol ac yn gofiadwy mewn sawl man yn ei gerdd. Hon yw'r unig awdl a ddaeth i law a thybiwn fod y llefarydd sy'n y gerdd fel petai'n parhau i ymgodymu ag ysgariad ei rieni flynyddoedd yn ôl. Mae'n cael ei groestynnu rhwng hunandosturi ynghylch ei orffennol ac awydd i gofleidio'r presennol a bwrw ymlaen yn hyderus â'i fywyd. Mae'r gorffennol yn ei ddilyn fel rhyw ysbryd aflonydd, neu 'frawd' di-ildio'i afael, fel y dengys y darlun effeithiol hwn:

Mae'i olwg drom o alar
Fel mellten o ben y bar.
Codaf wydryn, dymunaf
Lwybr rhwydd dyfodol braf
Iddo – fy mrawd hyd heddiw.
Ond heno, mae croeso'r criw
Yn ennyn rhyw hedd ynof.
Fe lyncaf. Petrusaf. Trof

O'i olwg a dychwelyd

At ru byw twrw'r byd.

Bardd ardderchog yw *CRWSTYN* ar ei orau, ond gwaith anwastad yn hytrach na chyfanwaith gorffenedig a gafwyd ganddo yn ein barn ni. Er enghraifft, mae sillaf yn eisiau yn llinell glo y dyfyniad uchod a da fyddai ei weld hefyd yn ailweithio rhannau o'i awdl.

Un bardd sydd ar ôl.

Mae doniau *UN YMHLITH MWY* yn dra amlwg o agoriad y gwaith hyd at ei ddiwedd. Ar yr olwg gyntaf, gellir ystyried ei gyfansoddiad yn ddilyniant o bum cerdd. Ond, gan mor grefftus o dynn yw gwead y cwbl, hawdd dadlau mai cyfanwaith yn cynnwys pum isadran sydd yma a bod y gwaith felly yn parchu gofyniad y gystadleuaeth, sef *cerdd* gaeth neu rydd. Ceir yma afael sicr ar iaith, y gallu i amrywio cyweiriau ieithyddol ac ymwybyddiaeth gadarn o seiliau rhythmig mesur y wers rydd. Mae'r defnydd achlysurol (ac anymwithgar) o'r gynghanedd hefyd yn cryfhau'r dweud ac yn ychwanegiad eironig at lais barddol sy'n mynnu herio hualau traddodiad. O ran adnoddau technegol a'r gallu i greu cyfanwaith cydlynus, dyma gystadleuydd sy'n llwyr argyhoeddi.

Beth am gynnwys ei gerdd? Yn y llinellau agoriadol fe'n cyflwynir yn y trydydd person i fardd. Y bardd hwn yw gwrthrych holl isadrannau'r gerdd ac mae'n fardd sy'n ymgodymu â dau beth annatod gysylltiedig â'i gilydd, ei rywioldeb ac, yn ei dyb ef, anallu'r iaith Gymraeg – ei ddeunydd crai fel bardd – i roi mynegiant i'r rhywioldeb hwnnw ac i'r ystod o rywioldebau a gynrychiolir gan y term 'cwiyr'. Gan adleisio un o linellau mwyaf cofiadwy Siôn Eirian, disgrifir y

bardd hwn fel un 'nad oes ganddo, o hyd, / eiriau / am rai pethau yn y Gymraeg'. Ymhellach, dyma fardd sy'n ymdeimlo 'nad yw'r Gymraeg / yn siarad iaith Ru Paul' a bod ei phroffesu yn anghymathadwy ag arddel 'pwy ydyw'. Ond, erbyn diwedd y gerdd, a'r bardd bellach yn arddel ei rywioldeb yn agored, awgrymir nad oes raid iddo 'ddeisyfu llwybr amgenach' ac ymwrthod â'r Gymraeg fel cyfrwng creadigol. Ac yn y sylweddoliad hwnnw y down at 'ddiolch' y testun gosodedig.

UN YMHLITH MWY, heb unrhyw amheuaeth, yw bardd gorau'r gystadleuaeth. Gan fod ei gerdd fuddugol yn dilyn y feirniadaeth hon, diangen ei chrynhoi ymhellach. Ond efallai y byddai o gymorth i rai darllenwyr ddeall beth yw arwyddocâd rhai o'r cyfeiriadau sydd ynddi. Un o wefannau iechyd rhyw y GIG yng Nghymru yw '*Frisky Wales*'. Yn y llinell 'fel deuddeg a mwy Nilsen' cyfeirir at y llofrudd torfol Dennis Nilsen, a diau bod cyfeiriad at y drws tuag at Aberhenfelen (chwedl Branwen) ar ddechrau a diwedd y gerdd. Un peth arall, bardd eironig ei gywair sydd yma ac eironi pennaf y gerdd hon yw ei bod yn llwyr wrthbrofi un peth a honnir ynddi. Drwy ei chyfansoddi, yr hyn a ddangosodd *UN YMHLITH MWY* yw bod y Gymraeg yn 'siarad iaith Ru Paul', a hynny gyda dyfeisgarwch a grymuster rhyfeddol.

Cadeirier *UN YMHLITH MWY* felly, gyda *CRWSTYN* yn yr ail safle ac *ELAN* yn drydydd.

